

---

**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C**

13 Chwefror, 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

**Cyfarfod Rhif 373**

---

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi)
	Aled Wyn Phillips	(Pennaeth Promos ar y Sgrin) – <i>(eitem 9 yn unig)</i>
	Bethan C. Williams	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

**Sylwadau agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.  
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1. **Datganiad o Ddiddordeb**

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod 372 (12 Rhagfyr 2013)**

Cymeradwywyd y cofnodion.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**Ysgoloriaethau a hyfforddiant** –roedd y Tîm Rheoli eisoes wedi cael trafodaeth, ac fe fydd crynodeb yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth.

3. **Crynodeb o'r Diwrnod i Drafod (a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2014)**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd crynodeb o'r diwrnod i drafod i'r Awdurdod a'r swyddogion. Cafwyd trafodaeth am y ffigurau gwyllo a chytunwyd y dylai PW/DRh/CE drafod y mater ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod. Yn yr un modd cyfeiriwyd at natur yr iaith a ddefnyddir mewn rhaglenni eto a gofynnwyd i IHJ edrych ar y materion i'w trafod ymhellach a sicrhau cyfle pellach i'w dwyn i sylw'r Awdurdod.]

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd HJ ei adroddiad ysgrifenedig. Trafodwyd:

Cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol y Cynulliad. Y gobaith oedd y byddai hyn yn ddigwyddiad blynyddol.

Penodiadau Aelodau i'r Awdurdod: adroddodd HJ ei ddealltwriaeth fod hysbyseb bellach ar wefan DCMS.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol:

5.1 **Cytleoli/Adleoli –Cynlluniau'r BBC**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd dogfen yn esbonio'r cynlluniau dan ystyriaeth gan y BBC.]

5.2 **Y Broses Adleoli**

[**Crynodeb:** Cadarnhawyd yr amserlen ar gyfer dod i benderfyniad. Cytunwyd bod angen dadansoddiad clir o'r holl opsiynau er mwyn dod i benderfyniad buan.]

5.3 **Pobol y Cwm**

[**Crynodeb:** Roedd y trafodaethau â'r BBC ynghylch patrwm darlledu Pobol y Cwm yn parhau.]

5.4 **RABODIRECT PRO12**

[**Crynodeb:** Eglurwyd y sefyllfa ynglŷn â'r hawliau rygbi. Roedd y dyfodol yn dal yn ansicr. Nododd yr Aelodau eu diddordeb yn y pwnc a'u cydymdeimlad â'r swyddogion yn wyneb sefyllfa anodd.]

5.5 **Youview/Youtube**

Roedd y cyhoeddiad am bresenoldeb S4C ar Youview wedi cael derbynriad da iawn.

Youtube –roedd yn fwriad arbrofi mwy gydag elfennau o'r gwasanaeth, yn arbennig o ran pobol ifanc a phlant.

6. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad a chafwyd trafodaeth am yr arlwy diweddar. Cyfeiriwyd at yr her o ddarparu comedi sydd weithiau yn gyfyng ei apêl ond weithiau yn anelu at gynulleidfa fwy eang.]

7. **Adroddiad Ymchwil Misol**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwil misol. Nodwyd pwysigrwydd chwaraeon o fewn yr amserlen a mynegwyd pryder am allu S4C i gystadlu am hawliau yn y dyfodol wrth i'r gystadleuaeth rhwng BT a Sky gynyddu.]

8. **Cyflwyniad Ymchwil Tracio Delwedd (SPA)**

Roedd JP wedi ymddiheuro na fedrai fod yn bresennol. Bydd y cyflwyniad yn cael ei ail-drefnu.

9. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y materion isod:

9.1

Eglurodd fod y gwaith datblygu logo a delwedd newydd yn parhau. Ymunodd AWP a chafwyd cyflwyniad i ddangos sut mae'r gwaith ar y logo yn datblygu. Nodwyd ei fod yn hanfodol i'r brand weithio'n llwyddiannus ar bob plattform, yn ddigidol ac mewn print. Cafwyd mewnbyn sylweddol gan y tîm mewnol.

Bydd idents newydd, cynhesach hefyd yn cael eu datblygu yn adlewyrchu tirwedd a chyd-destun Cymru a'i phobl. Bydd logo S4C yn cael ei ychwanegu, mewn modd cymesur, at logos Cyw a Stwnsh. Cytunwyd fod Cyw yn frand cryf effeithiol, ond bod angen atgoffa pobl mai S4C sydd yn ei gynhyrchu.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chost y prosiect, ynghyd â sylwadau cyffredinol amrywiol gan yr aelodau am y logo newydd. Adroddodd IHJ fod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud yn fewnol.

Diolchodd y Cadeirydd i AWP, ac fe adawodd y cyfarfod.

9.2 **Materion eraill**

Nodwyd fod Taith Sioe Nadolig Cyw wedi cyflwyno 35 o sioeau, o flaen 7,000 o blant a 3,000 o oedolion.

Roedd Gŵyl Cymrwch Ran yn Llandudno wedi ei thargedu fel modd o gyrraedd cynulleidfa'r gogledd/gogledd ddwyrain a chafwyd sylwadau cadarnhaol gan rieni di-gymraeg

Taith Ysgolion Rownd a Rownd - Roedd y cwmni cynhyrchu wedi bod yn

gefnogol iawn a'r ymateb yn yr ysgolion yn gadarnhaol.

Cafwyd trafodaeth am bresenoldeb S4C o fewn papurau newydd y De. Cytunodd GLL i ystyried y defnydd o bapurau newydd y De.

10. **Adroddiad Ariannol**

Cyflwynodd KM ei hadroddiad ariannol a nododd bod y gwaith o baratoi cyllideb ar gyfer Ionawr – Mawrth 2014, a chyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 yn parhau ac y byddai cyllideb ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AE ei adroddiad o'r pwyllgor. Y prif faes dan sylw oedd chwaraeon. Nodwyd cefnogaeth i'r strategaeth newydd ar gyfer dysgwyr.]

12. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (17.01.14)**

Cyflwynodd RhT adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ar yr 17eg o Ionawr gan nodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor am gyflwyniad SC a RhB ar gynlluniau darparu ar gyfer argyfwng.

Roedd adroddiadau'r archwilwyr mewnol, oedd yn cynnwys y system rheoli risg yn gadarnhaol iawn. Cyfeiriwyd at y rhestr o faterion yn ymwneud â llywodraethiant corfforaethol ac roedd gobaith delio gyda'r eitemau sy'n weddill ar gyfer yr adroddiad blynyddol ym mis Ebrill.

O ran cyfrifon y cyfnod 15 mis, byddai angen dau bwyllgor archwilio i orffen pob dim ynglŷn â'r hen gyfnod a chael cyfarfod byrrach agored i'r holl aelodau i drafod y cyfrifon yn unig ym mis Mai oherwydd bod yr amserlen yn dynn iawn.

13. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol  
(a gynhaliwyd ar 17 Ionawr)**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd adroddiad o'r Bwrdd Masnachol.]

14. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth  
a Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion.

Nododd y Cadeirydd nad oedd copi papur wedi'i baratoi o adroddiad y Wifren y mis hwn, gan ei bod yn ddogfen hirfaith. Cytunwyd y byddai Adroddiad y Wifren yn cael ei ddosbarthu ar ffurf electronig yn y dyfodol.

15. **Rhaglen Waith yr Awdurdod 2014**

Cyflwynwyd fersiwn ddiweddaraf Rhaglen Waith yr Awdurdod.

16. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill

17. **Adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth  
(a gynhaliwyd ar 12fed Chwefror)**

Cynhaliodd yr Aelodau gyfarfod preifat i drafod adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth

18. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Iau, 13eg Mawrth